# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2018-2019

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **08 Mai 2019.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes diben arall iddo. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | Joe Hale | **Adran Etholiadol:** | St Thomas |

| | |
|---|---|
| **Swydd Cyflog Uwch:** | |

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Dros y flwyddyn ddiwethaf rwyf wedi ymwneud â llawer o weithgareddau yn yr etholaeth, gan fynychu cymorthfeydd misol yn St Thomas yn ogystal â mynd i gyfarfodydd Llywodraethwyr Ysgol yn Ysgol Danygraig ac Ysgol St Thomas.

Rwyf hefyd wedi bod ar dro dysgu yn Ysgol St Thomas, a mwynheais hwnnw'n fawr.

Mi es i hefyd i'r cyngherddau Nadolig yn y ddwy ysgol a'r Gwasanaeth Carolau yn Eglwys St Thomas. Dylai'r athrawon a'r rhieni fod yn falch iawn o bawb a gymerodd ran.

Cymerais ran hefyd yn nathliadau hanner canmlwyddiant Canolfan Gymunedol Port Tennant ac rwy'n mynd i ffeiriau eglwysig, ffeiriau a charnifal Eastside.

Rydym wedi parhau i gynnal cyfarfodydd preswylwyr rheolaidd ac yn parhau i herio (ar ran y preswylwyr) unrhyw feysydd pryder, boed y rheiny'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, problemau cyffuriau neu gyflwr ein hamgylchedd.

**Rhan 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol gan yr adran etholiadol.

Gallwch weld presenoldeb y cynghorydd yma.

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

Gallwch weld presenoldeb y cynghorydd yma.
Gallwch weld penodiadau'r cynghorydd i gyrff allanol yma.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Ein hymgyrch fwyaf a mwyaf llwyddiannus fu sicrhau bod ein polisi tai amlfeddiannaeth yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol - rhywbeth sydd bellach yn ein hamddiffyn rhag landlordiaid diegwyddor a datblygwyr sydd am droi ein cymuned yn bentref i fyfyrwyr.

Mae ymgyrchoedd eraill wedi cynnwys cyfarfodydd rheolaidd â'r heddlu ynghylch problemau cyffuriau cyfredol yn y ward a mynd i gyfarfod agoriadol cynllun gwarchod y gymdogaeth Heol Marcroft, cynllun y gobeithiwn y caiff ei ledaenu ar draws y ward.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Gallwch weld hyfforddiant cynghorwyr yma.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Wrth i St Thomas ddatblygu, rwy'n credu y bydd gan bob un ohonom lawer o heriau. Rwy'n credu'n gryf fod angen datblygu a chyflwyno newid, a hynny o'r preswylwyr i fyny, ac nid i'r gwrthwyneb. Yn y blynyddoedd i ddod, hoffwn weld pwyllgor cynllunio lleol yn cael ei sefydlu fel bod y datblygwr yn cwrdd â chymunedau cyn cwrdd â'r cyngor; strategaeth parcio ceir ymarferol nad yw'n dibynnu'n unig ar orfodi; a gwir gysylltedd ag SA1.

**Rhan 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,600

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma.
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma.

| **Dyddiad:** | 10/06/2019 |
|---|---|